



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, mae disgyblion a staff yn coleddu gweledigaeth y pennaeth, sy'n cael ei chyfleu'n glir, a'i themâu allweddol, sef parch, perthnasoedd a chyfrifoldeb. Yn y cyfnod byr ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi blaenoriaethu lles ar gyfer disgyblion a staff yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae cymuned yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyflawni eu huchelgeisiau ar y cyd. Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw arfer yn y ganolfan gynhwysiant, sef Canolfan Elfed, sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag ystod eang o anghenion. Mae ei harweinwyr a'i staff wedi creu amgylchedd hynod gynhwysol ac anogol lle mae bron pob un o'r disgyblion yn ffynnu ac yn gwneud cynnydd cryf o ran eu targedau unigol.

Mae dysgu proffesiynol ar gyfer staff wedi cyfrannu'n dda at wella lles a gofal, cymorth ac arweiniad cryf. Hyd yma, nid yw wedi canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith yr addysgu ar ddysgu disgyblion. Er bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi, mewn lleiafrif o achosion, nid yw cynllunio athrawon yn ystyried dysgu na chynnydd yn ddigon da, ac yn gyffredinol, nid yw adborth yn ddigon manwl gywir i gynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith.

Ar ôl ad-drefnu rolau yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi ymgymryd â'u rolau priodol â brwdfrydedd. Er gwaethaf y dechrau cadarnhaol hwn, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod rolau arwain a'u cyfrifoldebau cysylltiedig i gyd yn ddigon clir. Mae arweinwyr ar bob lefel yn dechrau casglu gwybodaeth am waith yr ysgol gan ddefnyddio prosesau addas. At ei gilydd, nid yw'r dystiolaeth y maent yn ei chasglu yn ddigon gwerthusol ynghylch dysgu ac addysgu.

Mae'r timau lles, cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol ar draws yr ysgol yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn elwa ar amrywiaeth o ddarpariaeth a chymorth personoledig tra ystyriol. Er bod presenoldeb wedi gwella ers y pandemig, mae arweinwyr yn cydnabod bod angen parhau i annog disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn enwedig y rhai sy'n parhau i fod yn absennol yn barhaus, neu'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion bregus yn dda.



Argymhellion

- A1 Gwella addysgu fel ei fod yn cael effaith gyson ar ddysgu disgyblion
- A2 Sicrhau bod cyfrifoldebau arwain yn cael eu diffinio'n glir a'u dosbarthu'n deg
- A3 Cryfhau prosesau cynllunio gwelliant
- A4 Cryfhau darpariaeth i leihau absenoldebau parhaus a gwella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Gâr
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	1346
Disgyblion o oed ysgol statudol	1092
Nifer yn y chweched dosbarth	250
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 18.5%)	19.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 23%)	37.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	8.8%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	2.6%
Dyddiad penodi'r pennaeth	Ebrill 2021
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	Ionawr 2014
Dyddiad dechrau'r arolygiad	03/10/2022

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/12/2022